## Atodiad 9 – Geirfa

| Term | Disgrifiad |
|---|---|
| **Aeddfedrwydd Digidol** | Pa mor dda y medrwn ddefnyddio technoleg i gael system iechyd a gofal ddibapur sydd i'w chael am ddim ar bwynt y gofal. |
| **Arloesedd** | Sefydliad yn y sector cyhoeddus yn rhoi ar waith gynhyrchion, gwasanaethau neu ffyrdd o wneud pethau sy'n newydd neu yn sylweddol well, naill ai y tu mewn i strwythur y sector cyhoeddus ei hun neu yn y modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. |
| **Ateb Cwmwl Hybrid** | Sydd weithiau'n cael ei alw'n gwmwl hybrid. Amgylchedd gyfrifiadurol sy'n cyfuno canolfan ddata ar y safle (a elwir hefyd yn gwmwl preifat) gyda chwmwl cyhoeddus, fel bod modd rhannu data a chymwysiadau rhyngddynt. |
| **Budd** | Deilliant neu rhywbeth a wneir a ystyrir yn bwysig er mwyn gwella |
| **Caffael Seiliedig ar Werth** | Sut yr ydym yn prynu gwasanaethau neu systemau fel ein bod yn ystyried y buddion ariannol a'r deilliannau a gyflwynir ganddynt. Felly byddwn yn ystyried mwy na'r pris. |
| **Cyd-gynhyrchu** | Agwedd at wasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar asedau ac sy'n galluogi pobl sy'n rhoi ac yn derbyn gwasanaethau i rannu'r grym a'r cyfrioldeb, a gweithio ynghyd mewn perthynas gyfartal, gilyddol a gofalgar. (Gwneud gyda phobl, nid iddynt) |
| **Cydweithredol** | Dau neu fwy o bartïon yn gweithio gyda'i gilydd |
| **Cynaliadwy** | Gellir ei gynnal yn awr ac yn y dyfodol |
| **Cynllun Parhad Busnes** | Mae'r cynllun hwn yn cynnwys y modd yr ydym yn trin problemau fydd yn cael effaith ar ein gwasanaethau fel bod y gwasanaethau a roddwn yn dioddef cyn lleied o darfu ag sydd modd. |
| **Cynhwysiant Digidol** | Meddu ar y cymhelliant, sgiliau a mynediad i ddefnyddio technoleg ddigidol a'r rhyngrwyd |
| **Cynllunio Gweithlu** | Cynllunio'r hyn sydd arnom ei angen gan ein gweithlu yn y dyfodol, h.y., niferoedd, sgiliau, etc. |
| **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth** | Cytundeb yw hwn sy'n gosod allan, mewn cyfraith, y defnydd a wneir o wybodaeth bersonol sy'n cael ei rannu rhwng gwahanol sefydliadau i gyflwyno gwell gwasanaethau. |
| **Deddfwriaethol** | Y cyfreithiau y mae'n rhaid i ni gadw atynt |
| **Deilliant** | Canlyniad unrhyw weithredoedd neu newidiadau |
| **Diwylliant** | Syniadau, arferion ac ymddygiad cymdeithasol sefydliad a'r bobl ynddo |
| **Dylunio'n canoli ar y Defnyddiwr** | Proses ddylunio lle'r ydym yn deall anghenion holl ddefnyddwyr system neu broses, ac yn creu gwasanaethau i ateb yr anghenion hynny. Dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr, y tasgau a'r amgylchedd. Mae defnyddwyr yn rhan o'r dylunio a'r datblygu. |
| **Eithrio'n Ddigidol** | Anallu i gyrchu neu ddefnyddio cynhyrchion neu wasanaethau arlein. |
| **Gallu** | Meddu ar y gallu i gyflawni, h.y., sgiliau |
| **Galluedd** | Swm yr hyn y gallwn ei gyflawni |
| **Gwybodaeth Artiffisial** | Galluogi cyfrifiaduron a pheiriannau i ddynwared galluoedd canfod, dysgu, datrys problemau a gwneud penderfyniadau y meddwl dynol. |

| | |
|---|---|
| **Gwybodeg** | At ddibenion y Strategaeth hon, dyma'r gwasanaethau sy'n ffurfio Gwybodeg, Gwasanaethau TGCh, Cofnodion Cleifion, Integriddio Digidol, Gwybodaeth, Codio a Rhaglenni Clinigol, Sicrwydd a Gwelliant. |
| **Iechyd Digidol** | Mae iechyd digidol yn cysylltu ac yn grymuso pobl a phoblogaethau i reoli iechyd a lles, wedi'i ategu gan dimau darparwyr hygyrch a chefnogol sy'n gweithio mewn amgylcheddau gofal hyblyg, integredig, wedi eu galluogi'n ddigidol ac sy'n medru gweithio trwy'i gilydd. Mae'n gwneud defnydd strategol o offer, technolegau a gwasanaethau digidol i drawsnewid cyflwyno gofal. (HIMMS) |
| **Llythrennedd Digidol** | Medru canfod, didol, gwerthuso, rheoli a chreu gwybodaeth ar ffurf ddigidol. |
| **Llythrennedd Genomeg** | Esbonio canfyddiadau gwyddonol mewn termau dealladwy |
| **Llywodraethiant** | Y systemau a'r prosesau y byddwn yn eu defnyddio i arwain, rheoli a chyfarwyddo ein gwaith digidol |
| **Partneriaethau** | Gweithio ynghyd gyda sefydliadau eraill |
| **Rhagweithiol** | Creu neu reoli sefyllfa yn hytrach na dim ond ymateb iddi wedi iddi ddigwydd. |
| **Rheoli Contractau** | Dyma sut y byddwn yn rheoli contractau o'r amser y byddwn yn gosod contractau hyd at yr amser y daw'r contract i ben. Einioes y contract. |
| **Rhwydweithiau** | Ffyrdd o gysylltu cyfrifiaduron a dyfeisiadau eraill fel y gallant rannu gwybodaeth. |
| **Seibr-ddiogelwch** | Y dechnoleg, prosesau a'r arferion sy'n amddiffyn ein systemau, rhaglenni, rhwydweithiau a dyfeisiadau rhag mynediad heb awdurdod. Mae'n gwarchod ein gwybodaeth. |
| **Strategaeth** | Cynllun gweithredu a fwriadwyd i gyrraedd nod tymor-hir neu gyffredinol |
| **Strategol** | Nod a buddiannau tymor-hir neu gyffredinol |
| **Trawsnewid** | Y broses o newid yn gyfan gwbl er mwyn gwella. |